# Edrych ar sut rydym ni'n cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ym Mhen-y-bont ar Ogwr

## Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant



Mehefin 2023

# Helo

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn gwirio ac yn arolygu gwasanaethau. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n gwneud y pethau iawn yn y ffyrdd iawn. Gallwn weithredu os nad ydyn nhw.

Ym mis Mehefin 2023, fe wnaethom wirio sut mae gwasanaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cadw plant yn ddiogel.

**Fe wnaethom wirio'r canlynol:**

- beth maen nhw'n ei wneud i ddelio â chamdriniaeth ac esgeulustod
- sut maen nhw'n asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau i gadw plant yn ddiogel
- pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithio
- sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd.

## Pwy wnaeth gymryd rhan?

**Cawsom gymorth gan:**

- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Estyn.

**Fe wnaethom arolygu:**

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Gwasanaethau awdurdodau lleol — gwasanaethau plant, ysgolion a mwy
- Heddlu De Cymru.



## Beth wnaethon ni

Buom yn siarad â phlant am eu gofal a'u cefnogaeth.

Fe wnaethon ni siarad â staff a gweithwyr proffesiynol.

Fe wnaethon ni gynnal grwpiau ffocws.

Fe wnaethon ni wirio cofnodion.

Fe wnaethon ni anfon arolygon allan.

Fe wnaethon ni ymweld ag ysgolion, gan gynnwys ysgol arbennig.

Fe wnaethon ni edrych ar dystiolaeth.

Fe wnaethom arsylwi cynadleddau amddiffyn plant a sut mae staff yn gweithio.

Fe wnaethom ni siarad â sefydliadau a grwpiau.

# Rhai o'n prif ganfyddiadau

## Cefnogaeth ac amddiffyniad

Mae llawer o staff a gweithwyr proffesiynol medrus. Maen nhw'n gweithredu'n gyflym ac yn gwybod sut i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Maen nhw'n gwneud gwaith da.

## Gweithio gyda'n gilydd

Mae gwasanaethau a sefydliadau'n cydweithio'n dda ac yn deall yr hyn mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud i gadw plant yn ddiogel.

## Arweinyddiaeth

Mae uwch arweinwyr a rheolwyr yn gadarnhaol ac yn cefnogi'r gweithlu. Maen nhw'n gweithio fel tîm ac yn rhoi diogelwch plant a'u hanghenion wrth wraidd eu gwaith.

## Ysgolion

Mae ysgolion yn gweithio'n dda gyda llawer o wasanaethau eraill i gefnogi plant.

## Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

Mae'r Bwrdd Diogelu yn dda am rannu gwybodaeth ac adnoddau. Maen nhw wedi helpu gwasanaethau i wella.

## Atgyfeirio a rhannu gwybodaeth

Mae gweithwyr proffesiynol a staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau yn gwneud yr atgyfeiriadau cywir, ond mae heriau wrth rannu gwybodaeth a rhoi adborth. Mae llwyfan digidol newydd yn cael ei ddatblygu a ddylai helpu i wella hyn.

## Y gweithlu

Mae recriwtio a chadw staff yn her, yn enwedig yn y gwasanaethau cymdeithasol. Does dim digon o weithwyr cymdeithasol, felly mae'n rhaid i wasanaethau lenwi'r bwlch gyda gweithwyr cymdeithasol asiantaeth.

## Pwysau ar wasanaethau

Mae mwy o bobl angen cefnogaeth gan wasanaethau. Mae anghenion plant a theuluoedd yn dod yn fwy cymhleth.



## Mae gweithwyr proffesiynol a staff ar draws Pen-y-bont ar Ogwr yn deall sut mae camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn effeithio ar blant.

Maen nhw'n:

- gwybod sut i nodi risgiau a gweithredu
- sicrhau bod gwybodaeth a chofnodion yn gywir ac yn gyfredol
- rhannu gwybodaeth a rhoi gwybod am bryderon yn y ffyrdd cywir
- camu i mewn yn gynnar i gefnogi plant a theuluoedd
- gwrando ar blant a phobl ifanc a'u cynnwys nhw mewn penderfyniadau
- atal plant rhag ymwneud â phobl anniogel neu droseddu
- riportio pan fyddan nhw'n credu bod plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso'n ddomestig
- meddu ar ddull cadarnhaol o ddysgu a datblygu sgiliau
- mynychu cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant
- cymryd rhan mewn paneli, grwpiau a fforymau.

## Cyfarfodydd amddiffyn plant

Mae llawer o weithwyr proffesiynol gwahanol ar draws gwasanaethau a sefydliadau yn mynd i'r cynadleddau hyn. Maen nhw'n rhannu gwybodaeth, yn codi ymwybyddiaeth o sut mae niwed yn effeithio ar fywydau plant a phethau eraill.

## Yr Hwb Diogelu Aml-Asiantaethol (MASH)

Mae MASH yn helpu gwasanaethau i gydweithio, rhannu gwybodaeth a chamu i mewn yn gyflym i gefnogi plant. Daw atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol ac aelodau'r cyhoedd.



# Rhai o’r pwyntiau da a wnaethon ni eu canfod

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

**Mae gan y Bwrdd Iechyd lawer o staff sydd wedi’u hyfforddi’n dda sy’n gwybod sut i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.**

Maen nhw’n:

- deall beth i’w wneud a sut i gadw plant yn ddiogel
- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill yn dda
- sicrhau bod staff yn gwybod sut i wneud atgyfeiriadau ac anfon copïau at y timau diogelu
- sicrhau bod gwybodaeth ac adroddiadau yn gywir ac yn gyfredol
- gwrando ar blant a phobl ifanc
- gweithio gyda rhieni a gofalwyr
- sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn mynychu cyfarfodydd diogelu a fforymau eraill
- sicrhau bod paediatregydd neu nyrs ddiogelu yn bresennol os bydd plentyn yn dod i’r ysbyty gydag anaf nad yw wedi’i achosi drwy ddamwain
- sicrhau bod staff yn deall y risgiau ychwanegol mae plant â phrofiad o ofal yn eu hwynebu
- cynnal cyfarfodydd misol fel y gall gweithwyr proffesiynol ddysgu oddi wrth y naill a’r llall a chael cefnogaeth
- cael cyfarfodydd diogelu gyda gweithwyr proffesiynol o bob adran yn mynychu
- hyfforddi staff ar sut i gadw plant a phobl ifanc sy’n agored i niwed yn ddiogel
- sicrhau bod staff yn cael cefnogaeth.

**Maen nhw wedi buddsoddi yn y canlynol:**

- Tîm Diogelu i gefnogi, cynghori a chynnig hyfforddiant i staff
- Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) mewn ysbytai
- nyrsys amddiffyn y cyhoedd sy’n gweithio gyda MASH
- gwasanaeth lles i staff.

### Hyrwyddwyr diogelu

Mae’r bwrdd iechyd yn cyflwyno hyrwyddwyr diogelu ar draws eu hadrannau. Byddant yn cael hyfforddiant ychwanegol ar sut i gadw plant yn ddiogel ac yn rhoi cymorth a chyngor i staff.



## Ym mhob ysgol y gwnaethom ni ymweld â nhw, roedd y disgyblion yn teimlo’n hapus, yn ddiogel a’u bod nhw’n cael eu clywed.



### Ysgolion ac addysg

**Mae cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel yn flaenoriaeth fawr i bob gwasanaeth addysg.**

Maen nhw’n:

- camu i mewn yn gyflym pan fyddan nhw’n credu bod disgybl mewn perygl ac yn gwybod sut i’w gadw’n ddiogel
- gwybod sut i nodi materion yn gyflym a chefnogi teuluoedd
- meddu ar Arweinwyr Diogelu Dynodedig
- hyfforddi staff i ddeall anghenion disgyblion bregus
- cynnwys Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) i gefnogi llesiant
- cynnal fforymau i athrawon a staff drafod materion, rhannu arferion da a dysgu
- datblygu gweithgareddau sy’n hyrwyddo perthnasoedd diogel, diogelwch a lles ar-lein
- gwybod sut i wneud atgyfeiriadau a chysylltu’n dda â gwasanaethau eraill
- gweithio gyda MASH, Tîm o Amgylch yr Ysgol a’r Tîm Ymgysylltu Addysg
- gwybod sut i rannu gwybodaeth a herio penderfyniadau
- hyfforddi staff i ddeall diogelwch disgyblion, risgiau, trawma a sut i gefnogi anghenion
- meddu ar arweinwyr a rheolwyr cryf sy’n deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithio gyda’i gilydd i gadw disgyblion yn ddiogel
- gweithio i wella presenoldeb ysgol
- gwrando ac yn cynnwys disgyblion mewn cynllunio a phenderfyniadau
- sicrhau bod disgyblion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn cael cymorth
- mynychu cynadleddau amddiffyn plant, cyfarfodydd diogelu a fforymau eraill.

**Yr hybiau ‘Cymorth Cynnar’.**

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr dri hwb Cymorth Cynnar. Mae ganddyn nhw dîm o weithwyr proffesiynol sy’n cynnig cymorth a chefnogaeth i ysgolion. Mae ysgolion yn gweithio’n dda gyda’r hybiau hyn ac yn cysylltu teuluoedd fel y gallant gael yr help maen nhw ei angen yn gyflym.

## Heddlu De Cymru

**Mae gan y Bwrdd Iechyd systemau da ar waith i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.**

Maen nhw'n:

- gweithio'n dda a rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill
- gweithio'n dda gyda theuluoedd a chymunedau
- gwybod sut i nodi troseddau mewn atgyfeiriadau a'u cofnodi
- gwybod sut i nodi plentyn sy'n agored i niwed a chamu i mewn i'w gadw'n ddiogel
- meddu ar staff arbenigol sy'n gwirio cofnodion ac yn gwybod sut i adnabod risgiau
- rhannu gwybodaeth ar draws y llu
- ymchwilio pan fyddant yn credu bod plentyn mewn perygl
- cadw cofnodion yn gywir ac yn gyfredol
- meddu ar atebwyr galwadau sy'n gwybod sut i asesu risg a sicrhau bod yr heddlu'n cyrraedd plant sy'n agored i niwed yn gyflym
- siarad ac yn gwrando ar blant a phobl ifanc
- meddu ar fwrdd o weithwyr proffesiynol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i wella sut mae'r heddlu'n gweithio gyda phobl agored i niwed a'u cadw'n ddiogel
- hyfforddi staff ar sut i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel
- codi ymwybyddiaeth am gamfanteisio ar blant a phynciau eraill
- cefnogi lles staff
- mynd i gyfarfodydd diogelu gyda gwasanaethau eraill.

### Ymgyrch Encompass

Sefydlwyd Ymgyrch Encompass i helpu'r heddlu a'r gwasanaethau addysg i gydweithio. Mae'r heddlu'n sicrhau bod yr ysgol yn gwybod a oes angen cymorth ar ddisgybl oherwydd eu bod nhw wedi profi cam-drin domestig.



**Dywedodd plant eu bod nhw'n adnabod eu gweithiwr cymdeithasol, yn ymddiried ynddynt ac yn deall sut maen nhw'n eu cadw'n ddiogel.**



## Gwasanaethau Plant

**Mae gwasanaethau plant yn gwybod sut i nodi risgiau ac yn gweithio'n galed i gadw plant yn ddiogel.**

Maen nhw:

- yn camu i mewn yn gynnar i gefnogi plant a theuluoedd
- yn rhannu gwybodaeth yn dda
- yn gweithio'n dda gyda MASH, ysgolion a gwasanaethau eraill
- yn edrych ar atgyfeiriadau a gweithredu'n gyflym
- wedi gwella sut maen nhw'n gweithio ac nad oes ganddyn nhw restrau aros mwyach
- yn gweithio gyda chymunedau i gadw plant yn ddiogel
- yn cynnig cefnogaeth i bobl yn y Gymraeg
- yn sicrhau bod pob plentyn yn cael y lefel gywir o gefnogaeth
- yn gwrando ar farn plant a phobl Ifanc
- yn gwrando ar adborth pobl a'i ddefnyddio i wella sut maen nhw'n gweithio
- yn meddu ar Fwrdd Gwella Canlyniadau i Blant sy'n canolbwyntio ar wella gwasanaethau
- yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a chyfleoedd i rannu arfer da
- yn gweithio'n dda gyda grwpiau a sefydliadau
- yn sicrhau bod rheolwyr ar gael i siarad a chefnogi lles staff
- yn mynd i gyfarfodydd diogelu gyda gwasanaethau eraill.

**Eiriolaeth**

Mae gwasanaethau plant yn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael cynnig eiriolwr. Mae'r eiriolwr yn eu cefnogi, yn sicrhau eu bod yn deall gwybodaeth ac yn cael eu clywed.

# Ei wneud yn well ar gyfer y dyfodol

**Dyma rai ffyrdd rydyn ni'n credu y gall gwasanaethau wella:**

- Rhannu gwybodaeth a chyfathrebu'n well ar draws gwasanaethau.
- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd, yn gallu cyrchu'r gofrestr amddiffyn plant.
- Siarad â phlant a phobl ifanc a'u cynnwys yn fwy.
- Gwneud yn siŵr bod systemau'r Heddlu yn tynnu sylw at wybodaeth am blant ac oedolion agored i niwed a allai eu rhoi mewn perygl.
- Sicrhau bod systemau TG yn gallu cysylltu a rhannu gwybodaeth yn well.
- Sicrhau bod pawb yn gwybod y risgiau mae plant yn eu hwynebu yn eu hardal.
- Sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ddiogelu glir a bod gan staff wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) diweddaraf.
- Cadw cofnodion gwell o gyfarfodydd fel bod tystiolaeth ynghylch pam mae penderfyniadau'n digwydd, ac mae pawb yn gwybod beth sy'n rhaid iddyn nhw ei wneud.
- Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth am ethnigrwydd y plentyn yn cael ei chofnodi fel y gall gwasanaethau ddeall pob agwedd ar eu bywydau.
- Gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod ble i gael cyngor a chefnogaeth pan fyddan nhw ei angen.
- Gwneud yn siŵr bod gan MASH yr adnoddau a'r staff sydd eu hangen arno.
- Sicrhau bod yr holl staff yn deall pa mor bwysig yw cadw cofnodion cywir.
- Cymryd camau i recriwtio a chadw staff ar draws yr holl wasanaethau.
- Sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i hyfforddi a datblygu sgiliau.
- Sicrhau bod cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth yn rhoi'r plentyn yn gyntaf ac yn cael canlyniadau clir.
- Siarad ag aelodau o'r teulu a'u cynnwys yn fwy mewn penderfyniadau.

## Mae camu i mewn yn gynnar yn gwneud gwahaniaeth mawr.



# Y camau nesaf

Rydym ni wedi ysgrifennu at yr holl wasanaethau dan sylw i egluro'r hyn y daethom ni o hyd iddo a'r hyn mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud. Byddant yn rhoi gwybod i ni sut maen nhw'n bwriadu gwella eu gwaith.

Byddwn yn arolygu gwasanaethau eto yn y dyfodol.

## Diolch am ddarllen hwn.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma:

arolygiaethgofal.cymru/adolygiad-ar-y-cyd-gan-arolygiaethau-o-drefniadau-amddiffyn-plant-jicpa-pen-y-bont-ar-ogwr-2023

Byddem wrth ein bodd â'ch sylwadau ar yr adroddiad hwn! Ewch i'r ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

Arolwg adroddiad arolygiad

